# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mercher, 11 Mawrth 2015**

Amser y cyfarfod:
**13.30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Agenda

(253)v2

**1 Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth (60 munud)**
Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

**2 Cwestiynau i'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus (45 munud)**
Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

**3 Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol (15 munud)**
Gweld y Cwestiynau

**4 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd ar yr ymchwiliad i ailgylchu yng Nghymru (60 munud)**
**NDM5716 Alun Ffred Jones (Arfon)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd ar ei ymchwiliad i

Ailgylchu, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 18 Rhagfyr 2014.

Nodyn: Gosodwyd ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Mawrth 2015.

**Dogfennau Ategol**

[Adroddiad y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd](#)
[Ymateb Llywodraeth Cymru](#)

**5 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)**
**NDM5717 Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi diffyg uchelgais Llywodraeth Cymru o ran gwella'r amodau ar gyfer twf economaidd yng Nghymru;

2. Yn cydnabod cyfraniad sylweddol busnesau gwledig i economi Cymru, ond yn nodi'r potensial ar gyfer mwy o dwf; a

3. Yn annog Llywodraeth Cymru i gefnogi busnesau ledled Cymru drwy:

a) gwella isadeiledd, cysylltedd a sgiliau ledled Cymru;

b) gwella rôl awdurdodau lleol o ran eu cyfraniad at dwf economaidd;

c) gwella mynediad at gyllid i bob busnes yng Nghymru; a

d) cynyddu'r gyfradd eithrio ar gyfer pob eiddo busnes sydd â gwerth ardrethol o lai na £12,000.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Yn is-bwynt 3c), ar ôl 'yng Nghymru', mewnosod 'drwy greu Banc Datblygu Cymru i weithredu fel 'siop un stop 'ar gyfer cyngor busnes a mynediad at gyllid a man galw

cyntaf ar gyfer busnesau'

**Gwelliant 2 – Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Dileu isbwynt 3d) a rhoi yn ei le:

galluogi cadw trethi busnes yn lleol er mwyn cymell twf economaidd lleol.

*[os derbynnir gwelliant 2, bydd gwelliant 3 yn cael ei ddad-ddethol]*

**Gwelliant 3 – Elin Jones (Ceredigion)**

Cynnwys ar ddiwedd isbwynt 3d):

', ac ymestyn y cynllun rhyddhad ardrethi i fusnesau bach i fod yn gymwys i bob busnes sydd â gwerth ardrethol o £15,000 neu lai.'

**Gwelliant 4 – Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu isbwynt newydd ar ddiwedd pwynt 3:

cefnogi trefi marchnad Cymru, canolfannau traddodiadol ein cymunedau, a'r seilwaith sylfaenol o'u cwmpas.

**Gwelliant 5 – Elin Jones (Ceredigion)**

Ychwanegu isbwynt newydd ar ddiwedd pwynt 3:

cynyddu'r gyfran o gontractau caffael y sector cyhoeddus sy'n mynd i fusnesau Cymreig.

**6 Dadl Plaid Cymru (60 munud)**
**NDM5718 Elin Jones (Ceredigion)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi Adroddiad Synthesis y Panel Rhynglywodraethol ar y Newid yn yr Hinsawdd (IPCC) ar gyfer 2014 sy'n datgan:

a) bod dylanwad dynol ar y system hinsawdd yn glir, ac mai'r allyriadau anthropogenig diweddar o nwyon tŷ gwydr yw'r rhai uchaf mewn hanes;

b) bod yr awyrgylch a'r môr wedi cynhesu, bod cyfanswm yr eira a'r rhew wedi lleihau, a lefel y môr wedi codi; a

c) y gall gostyngiadau sylweddol mewn allyriadau dros y degawdau nesaf leihau risgiau i'r hinsawdd yn yr 21ain ganrif a thu hwnt, cynyddu rhagolygon ar gyfer addasu effeithiol, lleihau costau a heriau lliniaru yn y tymor hwy, a chyfrannu at lwybrau datblygu cynaliadwy sy'n gallu dygymod â'r newid yn yr hinsawdd.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno targedau statudol i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr yng Nghymru.

Mae Adroddiad Synthesis yr IPCC ar gyfer 2014 ar gael yn:
[http://www.ipcc.ch/pdf/assessment-report/ar5/syr/SYR_AR5_SPMcorr2.pdf](http://www.ipcc.ch/pdf/assessment-report/ar5/syr/SYR_AR5_SPMcorr2.pdf)
(Saesneg yn unig)

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Dileu pwynt 2 a rhoi'r canlynol yn ei le:

Yn edrych ymlaen at Fil yr Amgylchedd a fydd yn gyfrwng i Lywodraeth Cymru ddeddfu ar gyfer targedau statudol i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr.

*[os derbynnir gwelliant 1, bydd gwelliannau 2 a 3 yn cael ei ddad-ddethol]*

**Gwelliant 2 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ym mhwynt 2, ar ôl 'targedau' mewnosoder 'yn y Bil amgylchedd arfaethedig'.

**Gwelliant 3 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Cynnwys ar ddiwedd pwynt 2:

'ac yn gwneud datganiadau rheolaidd i'r Cyfarfod Llawn ar y targedau hynny'

**7 Cyfnod pleidleisio**

**8 Dadl Fer (30 munud)**
**NDM5714 Russell George (Sir Drefaldwyn)**

Gweithgareddau'r Grid Cenedlaethol yng nghanolbarth Cymru.

Atal Sir Drefaldwyn rhag cael ei diwydiannu a'i dinistrio.

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 17 Mawrth 2015

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 4 Mawrth 2015 i'w hateb ar 11 Mawrth 2015

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**
**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

## Gofyn i'r Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

**1. Suzy Davies (Gorllewin De Cymru):** Sut y mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod unrhyw wariant ychwanegol yn ystod y flwyddyn yn cynnig gwerth am arian? OAQ(4)0528(FIN)

**2. Sandy Mewies (Delyn):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd tuag at ddatblygu treth ar waredu i safleoedd tirlenwi yng Nghymru? OAQ(4)0537(FIN)

**3. Peter Black (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddiwygio fformiwla Barnett? OAQ(4)0520(FIN)

**4. Darren Millar (Gorllewin Clwyd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am arbedion effeithlonrwydd Llywodraeth Cymru yn y flwyddyn ariannol gyfredol? OAQ(4)0522(FIN)

**5. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am atebolrwydd ariannol Llywodraeth Cymru? OAQ(4)0531(FIN)

**6. Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda swyddogion Llywodraeth Cymru ynghylch cynnal refferendwm ar dreth incwm yng Nghymru? OAQ(4)0526(FIN)

**7. Ann Jones (Dyffryn Clwyd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am effaith gostyngiadau i'r grant bloc Cymru ar bobl yn Nyffryn Clwyd? OAQ(4)0535(FIN)

**8. Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru):** Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o ffactorau cymaroldeb fformiwla Barnett? OAQ(4)0538(FIN)

**9. Paul Davies (Preseli Sir Benfro):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer buddsoddi mewn seilwaith yng Nghymru? OAQ(4)0524(FIN)

**10. Peter Black (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddatganoli'r dreth dirlenwi i Lywodraeth Cymru? OAQ(4)0521(FIN)

**11. Mike Hedges (Dwyrain Abertawe):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gasglu trethi datganoledig arfaethedig? OAQ(4)0525(FIN)

**12. David Rees (Aberafan):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr effaith y bwriedir i bolisïau caffael Llywodraeth Cymru ei chael ar arferion cyflogaeth mewn busnesau sy'n gweithio ar brosiectau a gaiff eu hariannu gan arian cyhoeddus? OAQ(4)0533(FIN)

**13. Julie Morgan (Gogledd Caerdydd):** Beth yw goblygiadau ariannol y cytundeb Dydd Gŵyl Dewi i Gymru? OAQ(4)0534(FIN)

**14. Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru):** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i baratoi ar gyfer datganoli treth dir y doll stamp i Gymru? OAQ(4)0523(FIN)

**15. William Graham (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am brosiectau Llywodraeth Cymru a ariennir gan yr UE? OAQ(4)0532(FIN)

## Gofyn i'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

**1. Suzy Davies (Gorllewin De Cymru):** Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru i adolygu sut y mae awdurdodau lleol yn gweithredu ac yn monitro sut y caiff y gwasanaethau cyhoeddus eu cyflenwi? OAQ(4)0535(PS)

**2. Mark Isherwood (Gogledd Cymru):** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda chyd-Weinidogion Cymru ynghylch gwasanaethau ar gyfer personél y Lluoedd Arfog yng Nghymru? OAQ(4)0532(PS)

**3. Peter Black (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am drefniadau pensiwn ar gyfer diffoddwyr tân? OAQ(4)0531(PS)

**4. Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr):** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gydag arweinwyr llywodraeth leol ynghylch defnyddio cronfeydd wrth gefn awdurdodau lleol? OAQ(4)0537(PS)

**5. Gwenda Thomas (Castell-nedd):** Pa gynnydd a wnaed o ran bwrw ymlaen ag argymhelliad y Comisiwn Williams ynglŷn â chreu un gweithrediad cydwasanaethau i ddarparu swyddogaethau cefn swyddfa ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru? OAQ(4)0547(PS)

**6. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am effaith ad-drefnu llywodraeth leol ar Bowys? OAQ(4)0538(PS)

**7. Eluned Parrott (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus yng Nghaerdydd? OAQ(4)0546(PS)

**8. Russell George (Sir Drefaldwyn):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am fformiwla ariannu awdurdodau lleol ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus? OAQ(4)0533(PS)

**9. Julie Morgan (Gogledd Caerdydd):** Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru i weithio gyda dynion er mwyn lleihau nifer yr achosion o gam-drin domestig yng Nghymru? OAQ(4)0541(PS)

**10. Aled Roberts (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu hyd a lled ei rôl fel pwynt cyswllt ar gyfer y Lluoedd Arfog a chyn-filwyr yng Nghymru ? OAQ(4)0545(PS)**W**

**11. Nick Ramsay (Mynwy):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus lleol yn ne-ddwyrain Cymru? OAQ(4)0540(PS)

**12. Paul Davies (Preseli Sir Benfro):** Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o gyfrifoldebau awdurdodau lleol yn y dyfodol, yn dilyn gweithredu argymhellion y Comisiwn Williams? OAQ(4)0536(PS)

**13. Lynne Neagle (Torfaen):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus yn Nhorfaen? OAQ(4)0544(PS)

**14. Christine Chapman (Cwm Cynon):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ei gynlluniau i gryfhau democratiaeth leol yng Nghymru? OAQ(4)0539(PS)

**15. William Graham (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog gadarnhau'r trefniadau ar gyfer amseru etholiadau llywodraeth leol a drefnwyd ar gyfer Mai 2017? OAQ(4)0534(PS)

## Gofyn i'r Cwnsler Cyffredinol

**1. Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa sylwadau cyfreithiol y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'u gwneud ar ran Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r model pwerau a gedwir yn ôl? OAQ(4)0074(CG)**W**

**2. Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa drafodaethau y mae'r Cwnsler Cyffrediniol wedi'u cynnal gyda swyddogion y gyfraith eraill ynghlŷn a'r model pwerau a gedwir yn ôl? OAQ(4)0075(CG)**W**